Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu: 08 Ionawr 2026

Ymateb i Argymhellion Arolygiad Arolygiaeth Prawf EF:

- Cynllun Gweithredu Rhanbarthol Gwasanaeth Prawf Cymru

Cyhoeddi'r Adroddiad Rhanbarthol: 21 Ionawr 2026

**CYFLWYNIAD**

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid gydag oedolion a phlant.

I ymateb i'r adroddiad, rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS)/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau a gytunwyd ar yr argymhellion, a gytunwyd arnynt yn rhannol neu a ydynt heb gael eu cytuno (gweler y categorïau isod). Os cytunir ar argymhelliad neu os cytunir arno'n rhannol, mae'r cynllun gweithredu yn darparu camau penodol a chamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r camau gweithredu'n glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda'r perchennog, ac mae amserlenni pob cam wedi'u nodi'n glir. Cyhoeddir cynlluniau gweithredu ar wefan HMPPS.

| **Term** | **Diffiniad** | **Sylwadau ychwanegol** |
|---|---|---|
| Cytunwyd | Cytunwyd ar yr argymhelliad i gyd, mae modd ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy. | Dylai'r ymateb esbonio'n glir sut caiff yr argymhelliad ei gyflawni, ynghyd â'r amserlenni. Dylai camau gweithredu fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), gymaint ag y bo modd. Dylai'r camau gweithredu fod yn ddigon penodol i gael eu holrhain ar gyfer cynnydd. |
| Cytunwyd yn Rhannol | Dim ond ar ran o'r argymhelliad y cytunwyd, mae'n gyraeddadwy, yn fforddiadwy ac fe fydd yn cael ei weithredu.<br>Efallai na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd, er enghraifft. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei weithredu, ynghyd â chamau CAMPUS, a rhaid iddo gael ei olrhain ar gyfer cynnydd.<br>**Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad – rhaid i'r esboniad nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |
| Heb Gytuno | Ni chytunwyd ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau pam ein bod wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>**Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad – rhaid i'r esboniad nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |

| 1. Rhif Argymhelliad | 2. Argymhelliad | 3. Cytunwyd/ Cytunwyd yn Rhannol/ Heb Gytuno | 4. Ymateb Camau a Gymerwyd/ a Gynlluniwyd | 5. Perchennog Cyfrifol | 6. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dylai rhanbarth Gwasanaeth Prawf Cymru:** | | | | | |
| 1 | **Gwella trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth gyda'r heddlu a gwasanaethau plant i sicrhau ei bod yn gyson, yn amserol ac yn ddigon manwl i lywio asesiadau a chynlluniau i gadw pobl yn ddiogel.** | Cytunwyd | Bydd Gwasanaeth Prawf Cymru yn gwella'r protocol rhannu gwybodaeth ac ansawdd yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu, yn sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei derbyn yn gyson, yn ddigonol, yn gywir, yn amserol ac nad yw'n cael ei golygu'n helaeth, er mwyn cyfrannu'n llawn at asesiadau a chynlluniau i gadw pobl yn ddiogel drwy wneud y canlynol:<br><br>• Atgyfnerthu'r disgwyliadau presennol o ran rhannu gwybodaeth am ddiogelu drwy lwybrau ymgysylltu a fforymau partneriaeth presennol â'r heddlu a gwasanaethau plant.<br>• Cyhoeddi canllawiau a thempledi cyfnewid gwybodaeth diwygiedig gyda'r Heddlu a Gwasanaethau Plant a darparu sesiynau briffio, i gryfhau ymholiadau diogelu a cham-drin domestig.<br>• Gwreiddio safonau rhanbarthol ar gyfer gwybodaeth am ddiogelu a cham-drin domestig, gan sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau, cofnodi ac uwchgyfeirio ar draws holl Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf.<br>• Bydd y Tîm Cynllunio, Sicrwydd a Gweithredu (PPAIT) ar y cyd â Phenaethiaid yr Unedau Cyflawni yn cefnogi'r gwaith o gryfhau chwilfrydedd proffesiynol ymarferwyr drwy fagu hyder i nodi gwybodaeth annigonol, gofyn am eglurhad ac uwchgyfeirio pryderon lle bo angen, gan sicrhau bod asesiadau a chynlluniau dedfrydu'n gwbl seiliedig ar wybodaeth. | Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd Cymunedol, Penaethiaid Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf | Ebrill 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Defnyddio cyfarfodydd amlasiantaethol a strwythurau cyswllt cyfredol i gyflwyno negeseuon ar y cyd ac ymrwymiadau hyfforddi y cytunwyd arnynt i wella ansawdd yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu.<br>• Sefydlu safonau gwybodaeth rhanbarthol ar gyfer prydlondeb, ansawdd a chyflawnder ffurflenni diogelu.<br>• Gwreiddio'r safonau hyn mewn prosesau goruchwylio, archwiliadau Haen 1 a dangosfyrddau sicrwydd.<br>• Monitro cydymffurfiaeth drwy'r Paneli Atebolrwydd Prawf Rhanbarthol a'r Bwrdd Strategaeth, Cynllunio a Chyflawni Misol. | | |
| 2 | **Sicrhau bod lefelau MAPPA ar gyfer achosion yn y ddalfa ac yn y gymuned yn cael eu pennu'n brydlon, gan ystyried y dyddiad rhyddhau cynharaf posibl ac unrhyw ryddhau dros dro, gan gael gwybodaeth drylwyr oddi wrth yr holl asiantaethau perthnasol ym mhob achos.** | Cytunwyd | Bydd Penaethiaid Amddiffyn y Cyhoedd Cymunedol ac Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf yn sicrhau bod lefelau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn cael eu pennu'n brydlon ac yn seiliedig ar wybodaeth drylwyr, drwy wneud y canlynol:<br><br>• Cyhoeddi safonau Lefel 1 MAPPA diwygiedig ar draws timau yn y carchar ac yn y gymuned.<br>• Cryfhau'r gwaith o oruchwylio arweinyddiaeth a llywodraethu amserlenni a phrosesau, drwy wneud y defnydd gorau posibl o ddata presennol MAPPA Dangosfwrdd Ymarferwyr.<br>• Sicrhau bod ystyriaethau cynnar MAPPA yn seiliedig ar ddyddiad rhyddhau cynharaf neu ddyddiad rhyddhau dros dro 'Person yn y Carchar'.<br>• Gwella'r broses o rannu gwybodaeth â'r holl asiantaethau perthnasol er mwyn cyfrannu'n llawn at benderfyniadau MAPPA (Gweler: Argymhelliad 1)<br>• Integreiddio disgwyliadau MAPPA ag archwiliadau Haen Un a gweithgarwch yr Adnodd Archwilio Achosion Rhanbarthol (RCAT), i fonitro penderfyniadau MAPPA.<br>• Sefydlu llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer pennu lefelau'n hwyr ac oedi sy'n cyd-fynd â'r model llywodraethu sy'n deillio o'r Adolygiad Llywodraethu Rhanbarthol. | Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd Cymunedol, Penaethiaid Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf | Ebrill 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Gwella Goruchwyliaeth Ymarfer Myfyriol gyda Swyddogion Prawf, gan ddefnyddio enghreifftiau o achosion i gryfhau barn broffesiynol a chysondeb.<br>• Bydd gwaith ychwanegol i fonitro cydymffurfiaeth a goruchwyliaeth MAPPA drwy Weithgareddau Sicrwydd Haen Un. | | |
| 3 | **Gwella ymgysylltiad ymarferwyr, rhannu gwybodaeth a chysylltu ag asiantaethau partner i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau adsefydlu'n effeithiol a gweithio i gadw pobl yn ddiogel.** | Cytunwyd | Bydd Gwasanaeth Prawf Cymru yn gwella ymgysylltiad Ymarferwyr ag asiantaethau partner, gan gysoni gwaith wedi'i arwain gan y Pennaeth Integreiddio Cymunedol, Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd Cymunedol a'r Pennaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a gweithgarwch ymgysylltu diweddar â phartneriaid drwy wneud y canlynol:<br><br>• Atgyfnerthu a chryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol ar gyfer adsefydlu a diogelu, gan sicrhau cysondeb rhwng Integreiddio Cymunedol, Amddiffyn y Cyhoedd ac asiantaethau partner i wella ymgysylltu, rhannu gwybodaeth a chydweithio.<br>• Defnyddio fforymau amlasiantaethol a strwythurau cyswllt presennol i atgyfnerthu disgwyliadau ynghylch rolau, llwybrau atgyfeirio a chyfnewid gwybodaeth.<br>• Cryfhau'r defnydd o wybodaeth am bartneriaid o fewn prosesau presennol (cynllunio dedfrydau, goruchwylio, ailsefydlu cynnar).<br>• Ymgorffori ymgysylltu â phartneriaethau mewn archwiliadau Haen 1 presennol a gweithgarwch thematig WAT/Adnodd Archwilio Achosion Rhanbarthol.<br>• Monitro amrywiadau mewn arferion drwy'r llwybrau sicrwydd presennol, wedi'u hategu gan ddulliau uwchgyfeirio priodol a ddatblygwyd drwy'r Adolygiad Llywodraethu.<br>• Bydd y Tîm Cynllunio, Sicrwydd a Gweithredu yn cefnogi ymarferwyr i gryfhau ymgysylltiad ag asiantaethau partner, gan alluogi darparu gwasanaethau adsefydlu'n effeithiol a hyrwyddo diogelwch y cyhoedd drwy Weithgaredd Cynllun Gwella 'Cadw Pobl yn Ddiogel', gyda chefnogaeth Swyddogion Datblygu Ansawdd Lleol yn chwe Uned Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru. | Penaethiaid Gweithrediadau, Pennaeth Integreiddio Cymunedol, Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd Cymunedol, Pennaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Pennaeth y Tîm Cynllunio, Sicrwydd a Gweithredu | Mai 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Gwella ansawdd adroddiadau’r llysoedd fel sail i ddedfrydu, gan sicrhau bod gwybodaeth am gam-drin domestig a diogelu yn cael ei chasglu a'i defnyddio'n effeithiol.** | Cytunwyd | Bydd Gwasanaeth Prawf Cymru yn gwella ansawdd adroddiadau’r llysoedd gan ganolbwyntio ar sicrhau bod gwybodaeth am ddiogelu yn amserol, yn gyflawn ac yn cyfrannu'n glir at asesu risg, canfod dioddefwyr ac argymhellion dedfrydu drwy wneud y canlynol:<br><br>• Cyflwyno gofynion gwybodaeth safonol ar gyfer adroddiadau’r llysoedd mewn perthynas â cham-drin domestig, diogelu a dioddefwyr posibl.<br>• Integreiddio ffrydiau gwybodaeth gwell gan asiantaethau partner â phrosesau llunio adroddiadau, gan gynnwys templedi safonol.<br>• Darparu sesiynau briffio i ymarferwyr a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) drwy Ddiwrnodau Dysgu Gwarchodedig a chyfarfodydd tîm ar ddisgwyliadau ar gyfer gwybodaeth am ddiogelu a ffurfio risg.<br>• Datblygu hyder ymarferwyr i uwchgyfeirio pryderon pan nad yw'r wybodaeth a dderbynnir yn cynnwys digon o fanylion, gan ganiatáu iddynt gael yr holl wybodaeth angenrheidiol i roi gwybodaeth gywir am risg i'r Llysoedd.<br>• Cyflwyno cymedroli rhanbarthol o adroddiadau’r llysoedd drwy Archwilio Achosion Llys a gweithgarwch archwilio Haen 1.<br>• Gwreiddio gofynion ymarfer myfyriol a goruchwylio sy’n benodol i staff y llys.<br>• Parhau i ganolbwyntio ar egwyddor 'Dechrau Da, Diwedd Da', gan bwysleisio pwysigrwydd adroddiadau’r llysoedd ac ymgysylltu â phobl ar brawf.<br>• Gwella llwythi gwaith staff y llysoedd drwy recriwtio i swyddi gwag.<br>• Monitro ansawdd a phrydlondeb ymholiadau a gwybodaeth am risg drwy ddangosfyrddau a chylchoedd Adnodd Archwilio Achosion y Llys (CCAT), gyda dolenni adborth i Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf. | Penaethiaid Gweithrediadau, Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd Cymunedol, Pennaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Penaethiaid Unedau Cyflawni’r Gwasanaeth Prawf | Mai 2026 |
| 5 | **Adolygu’r gwaith o ddefnyddio a darparu CORRE i ystyried cynnwys** | Cytunwyd | Bydd Gwasanaeth Prawf Cymru yn cryfhau'r defnydd o CORRE (Canolog, Gweithredol, Ailsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso) i gefnogi'r gwaith o ffurfio achosion yn gyson, cynllunio risgiau’n gynnar ac adolygu’n barhaus drwy: | Penaethiaid Gweithrediadau, Pennaeth CORRE, | Mai 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **pobl ar brawf wrth gynllunio gwaith achos a'i ymestyn fel mater o drefn i adolygu achosion yn ddiweddarach.** | | • Adolygu gweithrediad presennol CORRE ar draws y rhanbarth i ganfod bylchau ac amrywiadau, gan wneud CORRE yn rhan safonol o weithgarwch adolygu achosion a rheoli dedfrydau<br>• Cyflwyno fframwaith rhanbarthol cryfach ar gyfer ailsefydlu ac ymgysylltu cynnar, gan gynnwys gwerthuso CORRE a disgwyliadau cyson o ran darparu o fewn 4 wythnos.<br>• Egluro disgwyliadau ymarfer o ran defnyddio CORRE wrth ffurfio achosion cychwynnol, cynllunio parhaus a phwyntiau adolygu ffurfiol.<br>• Ymgorffori ymgysylltiad ymarferwyr â'r person sydd ar brawf ym mhob cyfarfod asesu a chynllunio.<br>• Ymgorffori CORRE mewn templedi goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol a disgwyliadau arsylwi arweinyddiaeth.<br>• Darparu canllawiau i ymarferwyr, DPP a sesiynau briffio i gefnogi defnydd cyson.<br>• Integreiddio gwiriadau o ran defnyddio CORRE â gweithgarwch sicrwydd Haenau.<br>• Archwilio'r gofyniad i CORRE gynnwys ymgysylltu uniongyrchol â'r person sydd ar brawf ac adlewyrchu hyn mewn cynlluniau achos a gweithgarwch adolygu.<br>• Monitro cydymffurfiaeth a pherfformiad drwy ddangosfyrddau ac adroddiadau sicrwydd. | Pennaeth Rhaglenni a Gwneud Iawn â'r Gymuned | |
| 6 | **Gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer tasgau ailsefydlu ac ystyried a fyddai model cyson yn gwella'r ddarpariaeth.** | Cytunwyd | Bydd Gwasanaeth Prawf Cymru yn cryfhau gweithgareddau ailsefydlu cynnar a threfniadau tasgau drwy wneud y canlynol:<br>• Gwerthuso'r trefniadau presennol ar gyfer tasgau ailsefydlu ar draws yr holl ranbarth, er mwyn penderfynu a yw'r model presennol yn sicrhau canlyniadau gwell na model cyson ar draws pob Uned Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf.<br>• Atgyfnerthu disgwyliadau Dechrau Da, Diwedd Da ar gyfer cyswllt cynnar, adnabod anghenion a risgiau'n gynnar, a sefydlu cynlluniau cychwynnol yn ystod y dyddiau cyntaf ar ôl dedfrydu neu ryddhau. | Pennaeth Integreiddio Gwasanaethau, Pennaeth Integreiddio Cymunedol, Penaethiaid Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf | Mai 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Cryfhau llwybrau partneriaeth ar gyfer llety, Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth a gwasanaethau arbenigol o fewn fframwaith Dechrau Da, Diwedd Da.<br>• Integreiddio disgwyliadau Dechrau Da, Diwedd Da mewn archwiliadau Haen 1 a gweithgarwch yr Adnodd Archwilio Achosion Rhanbarthol.<br>• Gwerthuso arferion presennol ar gyfer ailsefydlu cynnar i nodi lle mae angen gwella cysondeb Dechrau Da, Diwedd Da. | | |

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| Cytunwyd | 6 |
| Cytunwyd yn Rhannol | 0 |
| Heb Gytuno | 0 |
| **Cyfanswm** | 6 |